# Cefnogi Datblygiad



Dŵr Cymru
Welsh Water

# Pwy ydyn ni

**Mae Dŵr Cymru yn wahanol i gwmnïau dŵr eraill. Nid oes unrhyw gyfranddeiliaid gennym ac rydym mewn perchnogaeth a dan reolaeth ar eich rhan chi a'r 3 miliwn o gwsmeriaid rydym yn eu gwasanaethu.**

Mae ein model gweithredu unigryw yn ein galluogi ni i ail-fuddsoddi mewn cymunedau, gan sicrhau bod ein hasedau'n addas at y pwrpas a'u bod nhw'n gallu darparu ar gyfer twf yn y dyfodol. Mae hyn yn ein helpu ni i sicrhau ein bod ni'n gallu ehangu ein rhwydwaith i gynorthwyo datblygiad a thwf economaidd hefyd.

Rydyn ni yma i helpu fel y gallwn greu economi llewyrchus a chynaliadwy. Rydyn ni'n anelu am ragoriaeth bob tro wrth helpu cwsmeriaid newydd a chyfredol i gysylltu â'n rhwydwaith, a hynny mor effeithlon a chyflym â phosibl.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **dwrcymru.com**





# Beth sy'n ein gwneud ni'n wahanol

Mae gan ein tîm arobryn wybodaeth helaeth am y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'n hasedau helaeth. Mae hyn yn ein helpu ni i sicrhau bod ein rhwydwaith yn gallu diwallu anghenion cwsmeriaid am flynyddoedd mawr i ddod, ac i osod sylfeini a fydd yn ein galluogi ni i gefnogi eich datblygiadau nawr ac yn y dyfodol.

Mae ein gwybodaeth fanwl am y gofynion cyfreithiol a'r rheoliadau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru, a'r rhannau cyffiniol o Loegr rydym yn eu gwasanaethu, yn ein galluogi ni i ddarparu cyngor cadarn er mwyn sicrhau bod eich datblygiad yn rhedeg yn ddidrafferth, ble bynnag yr ydych chi yn ein hardal.

Ni yw'r pwynt cyswllt cyntaf, a mwyaf uniongyrchol ar gyfer eich holl ymholiadau ar faterion dŵr a charthffosiaeth, a gallwn gynnig cyngor ar bob cam o'r prosiect.



# 15 peth gallwn ni ei wneud i chi

## Gwasanaethau cyn cynllunio

Mae ein tîm cynllunio pwrpasol yma i'ch helpu ac i gynnig cyngor. Os ydych chi'n datblygu safle newydd neu'n ystyried gwneud hynny, cysylltwch â ni, a byddwn ni'n gallu'ch cynghori a yw ein rhwydwaith a'n hasedau lleol yn addas i ddarparu ar gyfer eich cynnig ai peidio, ac a fydd ein hasedau cyfredol yn effeithio ar eich safle.

Mae ein gwasanaethau'n cynnwys darparu:

1. **Mapiau o Brif Bibellau dŵr neu Garthffosydd Cyhoeddus**
2. **Ymateb i ymholiadau safonol am ddraenio a dŵr**
3. **Gwirio capasiti cyn cychwyn**

## Gwasanaethau dŵr

4. **Cysylltiadau domestig a busnes newydd**
5. **Prif bibellau dŵr newydd i wasanaethu sawl eiddo (archebion)**
6. **Ceisiadau i osod eich prif bibellau dŵr eich hunan**
7. **Cyngor ac arweiniad am ddatblygu yng nghyffiniau prif bibell**
8. **Addasu neu gael gwared ar brif bibell dŵr a'r offer cysylltiedig**

## Gwasanaethau carthffosiaeth

9. **Cysylltiadau domestig a busnes newydd**
10. **Archebu carthffosydd cyhoeddus a/neu ddraeniau ochrol**
11. **Cyngor ar adeiladu yn agos at, neu dros ben carthffos gyhoeddus neu ddraen ochrol**
12. **Addasu neu waredu carthffosydd cyhoeddus**
13. **Mabwysiadu carthffosydd a draeniau ochrol newydd (gan gynnwys gorsafoedd pwmpio)**
14. **Mabwysiadu carthffos a draeniau ochrol sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys gorsafoedd pwmpio)**
15. **Cau carthffos gyhoeddus (Gadael yn Segur)**

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **dwrcymru.com**

# Tîm profiadol...

**Dros y 12 mis diwethaf, rydyn ni wedi:**


- Gosod tua 36,000m o bibellau dŵr newydd, gwyro prif bibellau dŵr a darparu cyflenwadau ar safleoedd datblygiadau newydd
- Gwasanaethu 1,380 o gwsmeriaid y tu hwnt i oriau gwaith arferol ar gyfartaledd, trwy ein gwefan a'n cyfleuster ffôn Ymateb Llais Rhyngweithiol
- Gwasanaethu dros 400 o gwsmeriaid pob dydd dros y ffôn, gan gynnwys cwsmeriaid domestig a datblygwyr.
- Ymateb i dros 4,500 o geisiadau cynllunio

# Ein haddewid i chi

**Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i:**

- Ddarparu gwasanaeth proffesiynol o safon bob amser
- Bod yn glir ac yn eglur bob tro yn ein cysylltiadau â chi
- Bod yn effeithlon ac yn gyfeillgar a rhannu gwybodaeth â chi
- Darparu gwasanaeth arbenigol, gwybodus a deallus
- Darparu gwasanaeth pwrpasol, sydd wedi ei deilwra at eich anghenion





**“Hoffwn enwebu Claire am ei chymorth wrth drefnu'r cysylltiadau ar gyfer ein plotiau. Mae gennym raglen anodd iawn, a waethygwyd gan y tywydd a phroblemau gydag isgontractwyr, ac mae'r ffaith fod Claire wedi llwyddo i drefnu popeth i ni mor gyflym wedi bod o gymorth aruthrol i ni a'n datblygiad.”**

Lee Williams, Kier Homes

**“Roedd angen chwiliad dŵr a draenio arnaf ar frys, ac roeddwn i'n ddigon ffodus i gysylltu â Wayne. Roedd Wayne yn gymwynasgar ac yn broffesiynol dros ben. Fe wnaeth e bopeth y dywedodd y byddai'n ei wneud, ac anaml iawn y dewch chi ar draws pobl fel yna. Gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid, a thriniaeth neilltuol o'r sefyllfa. Diolch!”**

Kathryn Barr, Customer



# Don’t just take our word for it...

**Datblygwr DU-eang sy’n arbenigo mewn prosiectau adfywio yw St. Modwen, ac mae tîm Gwasanaethau Datblygwyr Dŵr Cymru wedi bod yn gweithio gyda nhw ar brosiectau masnachol a thai strategol ers nifer o flynyddoedd bellach. Ni yw eu partner a’u darparydd gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth dethol yn ein rhanbarth.**

Mae prosiect datblygu 1,060 erw cyfredol St. Modwen yng Nghoed Darcy, Abertawe, yn cynnwys 4,000 o gartrefi, cyfleusterau cymunedol, pedair ysgol, ardal gyflogaeth ac ardal hamdden agored. Bydd y rhaglen datblygu’n rhedeg am hyd at 20 mlynedd, felly mae yna sialensiau i’w bodloni nawr, ac am amser hir i’r dyfodol.

Mae St. Modwen wedi dewis Dŵr Cymru fel darparydd gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer y datblygiad hwn. Am ein bod ni’n adnabod yr ardal, ac am fod gan ein tîm yr arbenigedd a’r gallu i gynghori ar bob cam o’r prosiect, ni yw’r partner delfrydol i fynd i’r afael â’r sialensiau unigryw sy’n codi trwy’r rhaglen adeiladu ymestynnol hwn.

Dywedodd Rupert Joseland, Cyfarwyddwr Rhanbarthol St. Modwen yng Nghymru a De-orllewin Prydain:

**“ Darparodd Dŵr Cymru Reolwr Prosiect pwrpasol, fel un pwynt cyswllt a allai gydweithio’n agos ag asiantaethau allanol ar ein rhan, yn ogystal ag adrannau allweddol eraill Dŵr Cymru, a hynny er mwyn sicrhau bod y prosiect yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae bod ag aelod penodol o staff wedi galluogi Dwˆr Cymru i gael gwell dealltwriaeth o’r datblygiad a deall ein cynlluniau tymor hir ar gyfer pob rhan o’r gwaith, gan sicrhau ein bod ni’n cyflawni ar yr holl gamau allweddol. Bu modd iddynt gydweithio’n agos â’r tîm dylunio o’r dechrau’n deg , gan sicrhau bod modd edrych ar gostau a sialensiau’r rhaglen mewn ffordd hyblyg.”**

Ychwanegodd Mike Davis, y Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Chyllid:

**“ Mae Dŵr Cymru’n chwarae rhan allweddol wrth gynnal twf economaidd ac mae ein gwaith gyda St. Modwen yn arwydd clir o’r ymrwymiad hwn, a’r berthynas broffesiynol sydd wedi datblygu er lles y naill sefydliad a’r llall.”**

Mae St. Modwen wedi dewis gweithio gyda Dŵr Cymru ar nifer o brosiectau eraill yn ne Cymru, gan gynnwys Swansea Transit, safle Campws newydd Prifysgol Abertawe yn y Bae, a Glan Llyn, cymuned newydd ar safle hen Weithfeydd Dur Llanwern ar gyrion Casnewydd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **dwrcymru.com**

# Cysylltwch â ni

I gael rhagor i wybodaeth am unrhyw un o'n gwasanaethau

dwrcymru.com
Developer.Services@dwrcymru.com

0800 917 2652

Gwasanaethau Datblygwyr
Dŵr Cymru
Blwch Post 3146
Linea, Fortran Road
Caerdydd  CF30 0EH

Institute of Water

**Enillwyr Gwobr Arloesedd 2013**